

## IMI Diploma in Light Vehicle Maintenance and Repair Level 2



### Yn gwyno

Bydd y cwrs hwn yn gwella eich gwybodaeth dechnegol ac academaidd am dechnoleg cerbydau.

### Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych wedi cwblhau Diploma Lefel 1
- ... Oes gennych ddiddordeb ysol mewn cerbydau
- ... Ydych yn dda am ddatrys problemau

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Bydd y cwrs hwn yn darparu astudiaeth ganolradd mewn technoleg a thechnegau trwsio sy'n gysylltiedig â cherbydau ysgafn a hefyd bydd yn eich paratoi ar gyfer astudiaeth bellach yn y diwydiant modurol.



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ceir pump o unedau technegol sydd wedi'u rhannu'n ôl y meysydd canlynol: technoleg siasis, technoleg injans, technoleg trawsyrru, technoleg drydanol ac electronig ac agweddau cyffredinol (e.e. iechyd a diogelwch).

Caiff y cwrs ei gyflwyno trwy gyfrwng y canlynol:

Arddangosiadau ymarferol  
Tasgau gwaith realistig  
Darlithoedd i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol  
Aseiniadau

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Lefel 2 mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau  
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Saesneg a Mathemateg](#)

### **Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I ddilyn y cwrs hwn, rhaid ichi feddu ar Lefel 1 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau (Beiciau Modur) neu Ddiploma L1 Cyfwerth. Mae mynediad uniongyrchol gyda fan leiaf 4 TGAU, Gradd D neu uwch, yn cynnwys Mathemateg/Mathemateg Rhifedd a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, hefyd yn opsiwn.

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs, a hefyd mae'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm yn ofynnol. Dylech fod â dymuniad cryf i weithio yn y diwydiant cerbydau modur, dylech gadw at ethos y coleg a dylech fod yn barod i wella eich lefel mewn pynciau academaidd.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw Cerbydau Ysgafn neu Brentisiaeth mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol priodol, fel esgidiau ac oferôls, a fydd yn costio oddeutu £40.00. Hefyd, bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu a'ch ffolderi eich hun.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@coleggwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

